# Y Strategaeth *Prevent*

canllaw i arweinwyr ysgolion a cholegau

## Cynnwys


Cyflwyniad 4

Y cefndir a'r cyd-destun 5

Y Strategaeth *Prevent* – goblygiadau i ysgolion, colegau a'u staff 6

Arddangos 'sylw dyledus' 7

Asesu risg 7

Gweithio gydag asiantaethau eraill 8

Asesu'r risgiau o radicaleiddio 8

Ymgysylltu 9

Bwriad y beri niwed 9

Y gallu i beri niwed 10

Hyfforddiant a chyfrifoldebau staff unigol 10

Polisïau TG 13

Y ddyletswydd *Prevent* a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill 13

Cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion a cholegau 15

Ceisio rhagor o gyngor ac arweiniad gan yr NASUWT 15

Atodiad 1 – Awdurdodau penodedig ym maes addysg, gofal plant ac addysg bellach sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd *Prevent* 17

Atodiad 2 – Rhestr wirio dyletswyddau *Prevent* 18

Atodiad 3 – Cyhoeddiadau defnyddiol 21

## Rhagair

Mae gan bobl plentyn a pherson ifanc hawl sylfaenol i gael eu hamddiffyn rhag niwed ac i'w lles gael ei hybu.

Mae athrawon ac arweinwyr ysgolion a cholegau wedi cydnabod erioed bod ganddyn nhw, law yn llaw â chydweithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill, ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac y gofelir amdanynt yn iawn.

Gall risgiau i ddiogelwch a lles ymddangos mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys y risg fod plant a phobl ifanc yn cael eu denu at derfysgaeth ac ideolegau y gellir eu defnyddio i gyfiawnhau gweithgareddau terfysgol.

Roedd Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd ac arwyddocaol ar ysgolion, colegau a'u staff mewn perthynas â'r materion hyn. Yn benodol, mae strategaeth *Prevent* Llywodraeth San Steffan yn gosod dyletswydd ar ysgolion a cholegau i atal plant a phobl ifanc rhag ymwneud â therfysgaeth na chefnogi terfysgaeth.

Mae'r strategaeth *Prevent* gan Lywodraeth San Steffan wedi ennyn beirniadaeth amrywiol, nid y lleiaf am ei dull cyffredinol o dargedu eithafiaeth Islamaidd fel y'i gelwir. Mae'r NASUWT wedi mynegi pryderon difrifol am y ddyletswydd *Prevent* ar ysgolion a cholegau, ac yn arbennig y diffyg pwyslais yn strategaeth Llywodraeth San Steffan ar hiliaeth a'r dde eithafol.

Bydd yr NASUWT yn parhau i bwyso ar Lywodraeth San Steffan i ddiwygio'r ddyletswydd *Prevent* er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn. Ond, mae'n bwysig sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol o'r gofynion y mae'r ddyletswydd yn eu gosod arnynt.

Nod y canllaw hwn yw sicrhau bod yr aelodau'n gallu ymwneud â'r ddyletswydd *Prevent* mewn ffordd wybodus ac adeiladol sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethau a rhagfarn ymhob sefyllfa addysgol.

**Ms Chris Keates**
Ysgrifennydd Cyffredinol NASUWT

## Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn:

- rhoi crynodeb o'r goblygiadau ar gyfer arweinwyr ysgolion a cholegau o ganlyniad i bolisi gwrthderfysgaeth Llywodraeth San Steffan, yn arbennig strategaeth *Prevent*; ac yn

- darparu cyngor ac arweiniad ar ffyrdd y gall arweinwyr ysgolion a cholegau sicrhau eu bod nhw a'u sefydliadau'n gallu cyflawni eu rhwymedigaeth dan y ddyletswydd *Prevent*.

Mae'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn ar gael ar wefan yr NASUWT yn **www.nasuwt.org.uk/prevent**.

Mae cyfrifoldebau cyfreithiol ar ysgolion a cholegau i sicrhau bod eu staff, gan gynnwys yr arweinwyr, yn gallu cefnogi gwaith i gyflawni'r ddyletswydd *Prevent*. Disgrifir y cyfrifoldebau yn y canllaw hwn. Ond mae'n bwysig nodi mai'r sefyllfa os bydd ysgolion neu golegau'n methu cyflawni unrhyw un neu ragor o'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol, gan gynnwys darparu hyfforddiant a sefydlu trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon, yw y bydd ymrwymiad o hyd ar aelodau unigol o'r staff i gymryd pa gamau bynnag y gallant i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai'r staff wynebu cael eu disgyblu neu gael mathau eraill o gosb os nad ydynt yn cymryd camau i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl pan fo'n bosibl ac yn rhesymol iddynt wneud hynny.

Mae'r canllaw hwn yn egluro pa gamau y dylai arweinwyr ysgolion a cholegau eu cymryd i gyflawni eu cyfrifoldebau yng nghyd-destun y ddyletswydd *Prevent*, hyd yn oed os yw eu sefydliadau'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Mae'n hanfodol y dylai arweinwyr ysgolion a cholegau gysylltu â'r NASUWT i gael rhagor o gymorth a chyngor os ydynt yn pryderu am y trefniadau yn eu hysgol neu goleg ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd *Prevent*.

**Y Cefndir a'r cyd-destun**

1. Mae strategaeth drosfwaol y DU ar gyfer gwrthderfysgaeth a gwrth-eithafiaeth (CONTEST) yn cynnwys pedair prif elfen:

   - **Erlid**: i darfu'n uniongyrchol ar ymosodiadau terfysgol a'u hatal;
   - **Atal**: i stopio pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth;
   - **Amddiffyn**: i gryfhau amddiffyniad y DU rhag ymosodiad terfysgol; a
   - **Paratoi**: i liniaru effeithiau ymosodiad terfysgol pan na ellir ei atal.

2. *Prevent* yw'r elfen o CONTEST sydd fwyaf perthnasol i ysgolion a cholegau. Mae CONTEST yn sefydlu tri amcan craidd ar gyfer *Prevent*, sef:

   - ymateb i her ideolegol terfysgaeth a'r bygythiad yr ydym yn ei wynebu gan y rhai sy'n ei hyrwyddo;
   - atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chefnogaeth addas; a
   - gweithio gydag amrywiaeth eang o sectorau (gan gynnwys addysg, cyfiawnder troseddol, ffydd, elusennau, y rhyngrwyd ac iechyd) pan fydd risg o radicaleiddio y credir bod angen i ni ymdrin â hi.

3. Yn ôl asesiad diogelwch swyddogol Llywodraeth San Steffan, mae'r mwyaf arwyddocaol o ran bygythiadau terfysgol a'r bygythiadau i ddiogelwch y DU yn dod gan fudiadau terfysgol Islamaidd sy'n gweithredu'n bennaf yn Syria ac Irac, yn enwedig y mudiad y cyfeirir ato'n gyffredin fel y Wladwriaeth Islamaidd, ISIS, ISIL neu Daesh, yn ogystal â'r grwpiau sy'n gysylltiedig ag Al Qua'ida.

   *'Mae eithafwyr Islamaidd yn ystyried ymyrraeth Orllewinol mewn gwledydd sydd â mwyafrif Mwslimaidd yn "rhyfel yn erbyn Islam" gan greu naratif o "ni a nhw".*

*'Mae eu hideoleg yn cynnwys y gred ddigyfaddawd na all pobl fod yn Fwslimaidd a Phrydeinig, ac na ddylai Mwslimiaid sy'n byw yma gymryd rhan yn ein democratiaeth. Mae eithafwyr Islamaidd yn ymosod yn benodol ar egwyddorion cyfranogiad sifil a chydlyniad cymdeithasol. Mae'r eithafwyr hyn yn honni eu bod yn canfod cwynion y mae sefydliadau terfysgol yna'n honni eu bod yn gallu eu datrys.'*[1]

4. Fodd bynnag, mae CONTEST hefyd yn nodi bod terfysgwyr sy'n gysylltiedig â'r dde eithafol yn parhau'n fygythiad i ddiogelwch a diogelu.

*'Mae ideoleg goruchafiaeth y dyn gwyn y grwpiau adain dde eithafol hefyd wedi darparu'r ysbrydoliaeth a'r cyfiawnhad i bobl sydd wedi cyflawni gweithredoedd terfysgol adain dde eithafol.'*[2]

## Strategaeth *Prevent* – y goblygiadau i ysgolion, colegau a'u staff

5. Ers 1 Gorffennaf 2015, mae pob ysgol, coleg a darparwr gofal plant y blynyddoedd cynnar wedi bod yn ddarostyngedig i ddyletswydd dan Adran 26 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi 'sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.'[3] Fel arfer, gelwir hyn yn ddyletswydd *Prevent*. Ceir rhestr gyflawn yn Atodiad 1 o'r awdurdodau addysgol a gofal plant a bennir gan y Ddeddf.

6. Mae adran 26 o'r Ddeddf gwrth-derfysgaeth a Diogelwch yn cael ei chefnogi gan gyfarwyddyd statudol.[4] Mae'r cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth San Steffan yn cadarnhau bod gofyniad i ganfod plant a phobl ifanc a allai fod yn agored i'w radicaleiddio yn ganolog i'r ddyletswydd *Prevent*. Y diffiniad o radicaleiddio yw proses pryd y mae person yn dod i gefnogi terfysgaeth a ffurfiau ar eithafiaeth. Rhaid i ysgolion a cholegau fod yn ymwybodol hefyd o'r camau y dylent eu cymryd pan fo plant a phobl ifanc o'r fath wedi cael eu canfod.

1 Llywodraeth EM (2015). *Prevent duty guidance*. Ar gael yn: (http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2015/9780111133309/pdfs/ukdsiod_9780111133309_en.pdf), agorwyd ar 16.01.15.
2 ibid.
3 ibid.
4 ibid.

7. Dyma'r diffiniad o eithafiaeth yn y canllaw statudol: gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydeinig, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth cyfraith, rhyddid yr unigolyn a chyd-barch a chyd-oddefgarwch o wahanol ffydd a chredoau. Mae'r canllaw hefyd yn dweud mai eithafiaeth yw galwadau am farwolaeth aelodau o'n lluoedd arfog.

**Arddangos 'sylw dyledus'**

8. Mae'r canllaw statudol yn cadarnhau bod yna bedwar prif faes gweithgarwch y gall ysgolion a cholegau ddangos eu bod yn rhoi 'sylw dyledus' i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth:
   - asesu risg;
   - gweithio gydag asiantaethau eraill;
   - hyfforddiant a chyfrifoldebau staff unigol;
   - polisïau ac arferion TG.

9. Nodir cyngor ynghylch yr elfennau hyn o'r ddyletswydd yn fanylach isod.

**Asesu risg**

10. Hefyd, mae disgwyl i bob ysgol a choleg asesu'r risg fod plant a phobl ifanc yn cael eu denu at derfysgaeth. Rhaid i ysgolion a cholegau fod yn gallu arddangos dealltwriaeth gyffredinol o'r risgiau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn eu hardal. Rhaid iddynt hefyd fod yn gallu arddangos dealltwriaeth benodol o sut i ganfod unigolion a allai fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio a beth y gellir ei wneud i'w cefnogi.

11. Rhaid ystyried y disgwyliadau hyn yng nghyd-destun y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu sydd gan y sefydliad. Mae'n ofynnol i ysgolion a cholegau gael gweithdrefnau clir yn eu lle i gefnogi plant sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Er na nodir hyn yn benodol yn y canllaw statudol, mae'r NASUWT yn argymell y dylid ymgorffori'r gweithdrefnau hyn ym mholisi'r ysgol neu goleg ynghylch diogelu.

12. Hefyd, mae disgwyl i'r holl staff fod yn gallu asesu'r risg fod plant a phobl ifanc yn cael eu denu at eithafiaeth neu derfysgaeth. Mae'r asesiad risg yn cynnwys deall pryd y mae plentyn neu berson ifanc yn ymwneud ag ideoleg eithafol, yn bwriadu peri niwed a/neu'n gallu cyflawni gweithredoedd treisgar. Ceir gwybodaeth am ffynonellau hyfforddiant a chymorth mewn rhannau eraill o'r canllaw hwn.

**Gweithio gydag asiantaethau eraill**

13. Mae disgwyl i ysgolion a cholegau weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill. Fel man cychwyn, rhaid i ysgolion a cholegau ystyried polisïau a gweithdrefnau'r Byrddau Lleol Diogelu Plant mewn perthynas â radicaleiddio ac eithafiaeth. Mewn ardaloedd a nodwyd fel rhai arbennig o agored i berygl, mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu cydlynwyr *Prevent* pwrpasol i weithio gyda chymunedau a sefydliadau, gan gynnwys ysgolion a cholegau. Gall y Byrddau Lleol Diogelu Plant roi gwybod i ysgolion a yw'r cymorth ychwanegol hwn ar gael ai peidio.

14. Pan fo'n briodol, mae disgwyl i ysgolion a cholegau weithio gyda'r heddlu a sefydliadau eraill yn y gymdeithas sifil sy'n gallu darparu cyngor a chymorth i ysgolion ar weithredu'r ddyletswydd *Prevent*. Mae disgwyl i ysgolion a cholegau ymgysylltu â rhieni a pherthnasau plant a phobl ifanc oherwydd maent mewn sefyllfa allweddol i ganfod arwyddion o radicaleiddio posibl. Pan fo teuluoedd yn mynegi pryderon am blant a phobl ifanc wrth ysgolion a cholegau, mae disgwyl i sefydliadau fod yn gallu eu cyfeirio at fecanweithiau cymorth priodol, gan gynnwys y rhaglen Channel a ddisgrifir isod dan 'Hyfforddiant a chyfrifoldebau staff unigol.'

**Asesu'r risgiau o radicaleiddio**

15. Defnyddir tri dimensiwn i asesu i ba raddau y mae plant a phobl ifanc mewn perygl o gael eu denu at weithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth: sef ymgysylltiad, bwriad a gallu. Caiff pob un o'r ffactorau hyn eu hystyried ar wahân.

## Ymgysylltu

16. Weithiau, cyfeirir at ffactorau ymgysylltu fel 'bachau seicolegol'. Maent yn cynnwys anghenion, rhagdueddiadau, cymhellion a dylanwadau cyd-destunol, a gyda'i gilydd maent yn mapio llwybr yr unigolyn at derfysgaeth. Gallant gynnwys:

    - teimlo dicter ac anghyfiawnder;
    - teimlo dan fygythiad;
    - angen am hunaniaeth, ystyr a pherthyn;
    - awydd am statws;
    - awydd am gyffro ac antur;
    - angen tra-arglwyddiaethu ar bobl eraill a'u rheoli;
    - rhagdueddiad i gael eu cyflyru;
    - awydd am newid gwleidyddol neu foesol;
    - ymwneud yn fanteisgar;
    - teulu neu ffrindiau'n ymwneud ag eithafiaeth;
    - bod mewn cyfnod o drawsnewid mewn bywyd;
    - cael eu dylanwadu gan grŵp neu gael eu rheoli gan grŵp;
    - problemau iechyd meddwl perthnasol.

## Bwriad i beri niwed

17. Nid yw pawb sy'n cael eu denu gan grŵp, achos neu ideoleg yn mynd ati i ddatblygu bwriad i beri niwed, felly caiff y dimensiwn hwn ei ystyried ar wahân. Mae ffactorau bwriad yn disgrifio'r meddylfryd sy'n gysylltiedig â pharodrwydd i ddefnyddio trais ac maent yn ymdrin â'r hyn y byddai'r unigolyn yn ei wneud ac i ba ddiben. Gallant gynnwys:

    - gor-ymuniaethu â grŵp neu ideoleg;
    - syniadaeth 'ni a nhw';
    - dad-ddyneiddio'r gelyn;
    - agweddau sy'n cyfiawnhau troseddu;
    - ffordd niweidiol o gyflawni diben;
    - amcanion niweidiol.

## Y gallu i beri niwed

18. Nid yw pawb sy'n dymuno peri niwed ar ran grŵp, achos neu ideoleg yn gallu gwneud hynny, ac felly mae cynllwynion i beri difrod eang angen lefel uchel o allu personol, adnoddau a rhwydweithio i fod yn llwyddiannus. Felly mae'r hyn y mae'r unigolyn yn gallu ei wneud yn ystyriaeth bwysig wrth asesu'r risg o niwed i'r cyhoedd. Gall y ffactorau gynnwys:

    - gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r unigolyn;
    - mynediad at rwydweithiau, cyllid neu offer;
    - gallu troseddol.

**Mae'r canllaw swyddogol ar asesu risg yn ei gwneud yn glir nad yw aelodaeth o grŵp ethnig, crefyddol neu gymdeithasol penodol neu ddilyn arferion crefyddol yn ffactor risg ac nid yw'n sail gyfreithlon dros bryder yng nghyd-destun *Prevent*.**[5]

## Hyfforddiant a chyfrifoldebau staff unigol

19. Mae disgwyl i ysgolion a cholegau sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd *Prevent*. Y man cychwyn yw y dylai'r aelod o'r staff a enwir yn Arweinydd Diogelu Dynodedig gael hyfforddiant priodol ar ymwybyddiaeth o *Prevent* ac felly bydd ar gael i roi cyngor a chymorth i aelodau eraill o'r ynglŷn â diogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Dylid ceisio gwybodaeth am hyfforddiant a chyngor ynglŷn â *Prevent* gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn y lle cyntaf. Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau sicrhau bod yr aelod o'r staff yn cael yr amser a'r adnoddau angenrheidiol i gael hyfforddiant ac i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r NASUWT yn cynghori y dylai'r aelod hwn o'r staff fod mewn swydd uwch o fewn yr ysgol.

20. Sut bynnag y trefnir yr hyfforddiant, mae'n bwysig cydnabod bod disgwyl i bob aelod o staff mewn ysgolion a cholegau sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys arweinwyr ysgolion a cholegau, ddeall mai radicaleiddio yw'r broses o ddenu plant a

5 *Ffynonellau: Llywodraeth EM (2012). Channel: Vulnerability Assessment Framework; College of Policing and Metropolitan Police Service (2015). Channel General Awareness.*

phobl ifanc at eithafiaeth a sut gallant fod yn agored i gael eu denu at derfysgaeth o ganlyniad i hynny.

21. Dylai aelodau o'r NASUWT sy'n arweinwyr ysgolion a cholegau gydnabod bod yn rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol o ystyr y term 'eithafiaeth' yng nghyd-destun gwerthoedd Prydeinig sylfaenol a sut y defnyddir eithafiaeth i gyfiawnhau gweithgareddau'n gysylltiedig â therfysgaeth. Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol hefyd o ba fesurau sydd ar gael i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth a sut i herio ideolegau eithafol a allai fod yn gysylltiedig â hynny. Rhaid iddynt ddeall sut i gael cymorth ar gyfer pobl sy'n cael eu hecsbloetio gan ddylanwadau radicaleiddiol.

22. Fel gyda phob elfen o ddiogelu, mae'n bwysig fod arweinwyr ysgolion a cholegau'n sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o brosesau mewnol eu sefydliad mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc y gwelir eu bod mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Dylai staff sydd â phryderon o'r fath gael eu cynghori i ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn i fynegi eu pryderon wrth y Person Uwch Dynodedig a/neu'r Pennaeth.

23. Pan fo risg posibl i blentyn neu berson ifanc wedi cael ei atgyfeirio drwy'r prosesau mewnol perthnasol a'i bod yn amlwg fod pryderon yn dal heb eu trin hyd yn oed ar ôl yr atgyfeiriad gan aelod o'r staff, mae'n hollbwysig fod arweinwyr ysgolion a cholegau'n cydnabod bod y canllaw statudol ar ddiogelu yn ei gwneud yn glir ei bod yn ddisgwyliedig i'r aelod o'r staff sy'n mynegi'r pryder bwyso i sicrhau bod y mater yn cael ei ailystyried.[6]

24. Hefyd, dylai arweinwyr ysgolion a cholegau nodi bod disgwyliad cyfreithiol ar yr holl staff ddeall i fynegi pryderon yn uniongyrchol wrth yr asiantaethau allanol priodol ynglŷn â phlant a phobl ifanc unigol os ydynt yn credu nad yw'r pryderon hyn wedi cael eu trin yn briodol gan eu hysgol neu goleg, hyd yn oed os ydynt wedi dilyn y gweithdrefnau diogelu mewnol.

25. Gall arweinwyr ysgolion a cholegau fynegi eu pryderon ynglŷn â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio drwy gysylltu

6 Llywodraeth Cymru (2015). Cadw dysgwyr yn ddiogel. (www.sewsc.org.uk/fileadmin/sewsc/documents/national/150114-keeping-learners-safe.pdf), agorwyd ar 25.02.16.

â'u rhaglenni Channel lleol neu drwy gysylltu â rhif difrys cenedlaethol yr heddlu (101).

26. Rhaglen gymorth Llywodraeth San Steffan, sef Channel, yw'r prif ddull y mae disgwyl i ysgolion a cholegau ei ddefnyddio i fynegi pryderon am blant a phobl ifanc y credant eu bod mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r rhaglen Channel, a'r cymorth a'r cyngor y gall eu darparu. Disgwylir i ysgolion a cholegau ddarparu gwybodaeth i'r staff am y trefniadau Channel lleol. Gellir cael gwybodaeth am Channel gan heddluoedd lleol neu gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant.

27. Mae Panel Channel ymhob awdurdod lleol, ac mae'n goruchwylio'r asesiadau risg a'r gweithgareddau cymorth ymhob ysgol a choleg.[7] Paneli Channel a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yw'r prif ffynonellau ar gyfer gwybodaeth am y risgiau cyffredinol o radicaleiddio y mae disgwyl i bob aelod o staff mewn ysgolion a cholegau fod yn ymwybodol ohonynt.

28. Mae modiwl cyffredinol ar-lein i roi hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r dull Channel o ymdrin ag asesu risg wedi cael ei gynhyrchu gan y Coleg Plismona.[8] Mae'r adnodd hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â chanfod ffactorau a allai wneud plant a phobl ifanc yn agored i'w radicaleiddio ac mae'n esbonio sut y gellir atgyfeirio i Channel. Mae'r NASUWT yn cynghori y dylai arweinwyr ysgolion a cholegau ystyried caniatáu i staff gael gafael ar y deunyddiau hyn er mwyn datblygu ei dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau dan y ddyletswydd *Prevent*. Mae rhagor o wybodaeth am y deunyddiau hyfforddi ar gael ar wefan yr NASUWT yn www.nasuwt.org.uk/prevent.

29. Mae Channel hefyd yn trefnu ymyriadau, lle bo hynny'n briodol, ar gyfer plant a phobl ifanc y credir eu bod mewn perygl o gael eu radicaleiddio neu gael eu denu at derfysgaeth. Gwirfoddol yw hi i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn Channel, ac nid yw atgyfeirio iddi'n arwain at roi cofnod troseddol i blentyn neu berson ifanc.

7 Llywodraeth EM (2015). *Channel Duty Guidance: Protecting vulnerable people from being drawn into terrorism* www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/425189/RIFE19_report.pdf _April_2015.pdf), agorwyd ar 02.02.16.

8 College of Policing and Metropolitan Police Service (2015). *Channel General Awareness.* Ar gael yn: (http://course.ncalt.com/Channel_General_Awareness/01/index.html), accessed on 16.01.16.

30. Gellir cael pecynnau hyfforddi manylach, megis WRAP (Gweithdy'r Swyddfa Gartref i Godi Ymwybyddiaeth am *Prevent*) drwy Baneli Channel lleol neu, lle bônt yn cael eu defnyddio, gan arweinwyr *Prevent* pwrpasol a benodwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae'r NASUWT yn cynghori y dylai arweinwyr ysgolion a cholegau, fel man cychwyn, sicrhau bod Arweinwyr Diogelu Pwrpasol fod yn gallu cael yr hyfforddiant hwn.

## Polisïau TG

31. Mae'n ofynnol i ysgolion a cholegau dan y ddyletswydd *Prevent* sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag deunyddiau terfysgol ac eithafol wrth fynd ar y we pan ydynt yn bresennol yn y sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau lefelau priodol o hidlo, waliau tân effeithiol ar gyfer y rhyngrwyd a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol diogel er mwyn osgoi camdriniaeth. Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau sicrhau bod y polisïau ynghylch diogelwch ar y we yn gyfoes a bod y trefniadau diogelu mewnol yn caniatáu i'r staff roi gwybod am unrhyw bryderon am ddeunyddiau a ddarllenir gan blant a phobl ifanc, naill ai ar y safle neu yn rhywle arall.

32. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cyngor pwrpasol ar y camau y dylai ysgolion eu cymryd i gyflawni'r agwedd hon yn ei chanllaw statudol, *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*.[9] Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau sicrhau bod polisi eu sefydliad yn cydymffurfio â'r canllaw hwn. Cyhoeddwyd rhagor o wybodaeth gan y Swyddfa Gartref ar y ffyrdd y gall ysgolion a cholegau fynd i'r afael â'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i radicaleiddio plant a phobl ifanc.[10] Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau ddarparu cyfleoedd i'r staff ymgyfarwyddo â chynnwys y cyhoeddiadau hyn.

## Y ddyletswydd *Prevent* a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill

33. Ni ddylid cyflawni'r dyletswyddau sy'n deillio o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r strategaeth *Prevent* mewn ffyrdd sy'n gwrthdaro â dyletswyddau statudol eraill y mae ysgolion a cholegau'n ddarostyngedig iddynt. Yn arbennig, mae rhwymedigaeth

---

9 Llywodraeth Cymru (2006). *Diogelu plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.* (http://gov.wales/pubs/circulars/2007/nafwc1207en.pdf?lang=en), accessed on 29.02.16.

10 DfE/Home Office (2015). 'How social media is used to encourage travel to Syria and Iraq'. (www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/440450/How_social_media_is_used_to_encourage_travel_to_Syria_and_Iraq.pdf), accessed on 02.02.16.

ar ysgolion a cholegau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i roi ‘sylw dyledus’ i’r angen i feithrin perthnasoedd da rhwng personau sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig a phersonau nad ydynt yn eu rhannu’. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector cyhoeddus sy’n deillio ohoni yn www.nasuwt.org.uk/equalityduty.

34. Felly dylai ysgolion a cholegau sicrhau nad yw gweithredu’r ddyletswydd *Prevent* yn tanseilio effeithiolrwydd eu polisïau a’u harferion sy’n ymwneud â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

35. Mae goblygiadau pwysig i’r ystyriaeth hon o ran y modd y mae ysgolion a cholegau’n ymgysylltu â’r ddyletswydd *Prevent*. **Yn benodol, mae’n hanfodol cydnabod bod y ddyletswydd *Prevent* yn ceisio mynd i’r afael â phob math o fygythiad terfysgol i’r DU ac nad yw’n gyfyngedig i eithafiaeth Islamaidd**. Fel y nodir uchod, mae’r ddyletswydd hefyd yn ymdrin â’r dde eithafol ac unrhyw fath arall o ideoleg y gellid ei defnyddio i hyrwyddo neu gyfiawnhau terfysgaeth. O ganlyniad, rhaid i ysgolion a cholegau sicrhau bod eu ffocws o ran y ddyletswydd *Prevent* yn ymgorffori pob math o eithafiaeth a nodir gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, yr heddlu lleol a’r Panel Channel. Mae canolbwyntio’n llwyr ar eithafiaeth Islamaidd yn null ysgol neu goleg o ymdrin â *Prevent* yn debygol o fynd yn groes i’w cyfrifoldebau dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

36. Er enghraifft, os bydd sefydliadau’n ceisio mynd i’r afael â radicaleiddio ymysg plant a phobl ifanc sy’n gysylltiedig ag eithafiaeth Islamaidd ond yn methu â mynd i’r afael â mathau eraill o eithafiaeth mewn ffordd debyg, mae’n debygol y byddai sefydliadau o’r fath a’r staff sy’n ymwneud ag arferion o’r fath yn torri eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf Cydraddoldeb os yw plant, pobl ifanc neu staff Mwslimaidd yn agored i driniaeth niweidiol o ganlyniad. Dyma pam fod yn rhaid i ysgolion a cholegau sicrhau bod hyfforddiant a chyngor i’r staff yn canolbwyntio ar bob math o eithafiaeth bosibl.

37. Mae’r NASUWT yn cynghori y dylai pob ysgol a choleg gynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn gymorth i ysgolion a cholegau ddangos eu bod wedi ystyried nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth

wneud penderfyniadau ynglŷn â gweithredu'r ddyletswydd *Prevent*. Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn gyfle i asesu'n systematig beth yw effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ac arferion sy'n gysylltiedig â *Prevent*, edrych ar gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael ag effeithiau negyddol neu niweidiol. Mae rhestr wirio ar gyfer Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gael gan yr NASUWT yn www.nasuwt.org.uk/equalityduty.

## Cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion a cholegau

38. Mae'r ddyletswydd *Prevent* yn nodi bod cyrff llywodraethu ysgolion, perchnogion academïau ac ysgolion rhad yn meddu ar gyfrifoldeb uniongyrchol i weithredu'r ddyletswydd *Prevent*. Mae canllawiau statudol ar gyfer sefydliadau ôl-16, gan gynnwys colegau addysg bellach a chweched dosbarth, yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i lywodraethwyr ymwneud o ddifri â rhoi'r ddyletswydd *Prevent* ar waith.[10]

39. Felly mae'n hanfodol fod cyrff llywodraethu a pherchnogion yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n cefnogi gallu ysgolion a cholegau i gyflawni eu cyfrifoldebau dan y ddyletswydd *Prevent*. Felly mae unrhyw weithgareddau a wneir gan lywodraethwyr neu berchnogion sy'n amharu ar waith arweinwyr ysgolion a cholegau i weithredu'r ddyletswydd yn anghyson â chyfarwyddyd statudol *Prevent* a byddent yn arwain at sail gyfreithiol i bryderu.

40. Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau geisio felly ei gwneud yn glir i lywodraethwyr a pherchnogion beth yw natur a hyd a lled cyfrifoldebau'r sefydliad dan ddyletswydd *Prevent* a'r camau a gymerir i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hi. Pan fo gweithredodd llywodraethwyr neu berchnogion yn amharu ar y gwaith hwn, dylai arweinwyr ysgolion a cholegau ddweud beth yw goblygiadau cyfreithiol y gweithredoedd hyn. Gellir cael gwybodaeth a chyngor arbenigol am y mater drwy Channel a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant.

## Ceisio rhagor o gyngor a chanllaw gan yr NASUWT

41. Mae'r NASUWT yn deall bod dyletswyddau a chyfrifoldebau arbennig ar arweinwyr ysgolion a cholegau mewn perthynas â *Prevent*. Ochr

10 DfE/Home Office (2015). *'How social media is used to encourage travel to Syria and Iraq.'* (www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445915/Prevent_Duty_Guidance_For_Further_Education__England__Wales_-Interactive.pdf), accessed on 26.02.16.

yn ochr â’r rhwymedigaeth sy’n gymwys i bob aelod o staff mewn ysgolion a cholegau, mae cyfrifoldeb ar arweinwyr ysgolion a cholegau i sicrhau bod eu sefydliadau’n cydymffurfio â’r dyletswyddau y mae strategaeth *Prevent* yn eu creu.

Felly, mae’r cyngor, yr arweiniad a’r cymorth sydd gael gan yr Undeb ar gyfer arweinwyr ysgolion a cholegau yn seiliedig ar gydnabyddiaeth bendant o’u cyfrifoldebau penodol yn hyn o beth.

42. Fel gyda phob mater yn ymwneud â diogelu, mae’n hanfodol fod arweinwyr ysgolion a cholegau sy’n credu y gallent fod yn wynebu anawsterau gyda’u cyflogwr o ganlyniad i’r ddyletswydd *Prevent*, gysylltu â’r NASUWT i gael rhagor o gyngor ac arweiniad yn ddi-oed. Yn benodol, dylid ceisio cymorth os yw arweinwyr ysgolion a cholegau yn credu eu bod mewn perygl o gael eu henwi fel rhai nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol dan y ddyletswydd *Prevent* neu os ydynt yn bryderus eu bod yn cael eu targedu’n afresymol gan eu cyflogwr mewn perthynas â mynd i’r afael â radicaliaeth neu eithafiaeth. Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau gysylltu hefyd â’r Undeb i gael cyngor os ydynt yn credu bod llywodraethwyr neu berchnogion yn gweithredu mewn ffyrdd sy’n anghyson â’r ddyletswydd *Prevent*.

43. Mae’r NASUWT yn bendant, er gwaethaf darpariaethau’r ddyletswydd *Prevent*, na ddylai aelod o weithlu’r ysgol neu’r coleg fod yn agored i gamwahaniaethu neu ragfarn a bydd yn cynrychioli buddiannau ei aelodau’n gadarn yn hyn o beth.

## Atodiad 1

**Awdurdodau penodedig addysg, gofal plant ac addysg bellach sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd *Prevent***

- perchnogion ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig na chynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion annibynnol (gan gynnwys academïau ac ysgolion rhad) ac academïau darpariaeth amgen;
- unedau cyfeirio plant;
- darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar cofrestredig;
- darparwyr gofal plant blynyddoedd diweddarach cofrestredig;
- darparwyr cynlluniau gwyliau ar gyfer plant anabl;
- personau sy'n cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol pan fo'r awdurdod lleol yn perfformio'n annigonol;
- personau a awdurdodir yn rhinwedd gorchymyn a wneir dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 i gyflawni swyddogaeth a bennir yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996;
- sefydliadau addysg bellach ar gofrestr yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau o sefydliadau hyfforddi, gan gynnwys is-gontractwyr sy'n cael mwy na £100,000 o gyllid gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau drwy ddarparwyr arweiniol. Mae hyn yn cynnwys tua 950 o golegau addysg bellach a darparwyr annibynnol – megis cwmnïau preifat a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau i ddarparu addysg a hyfforddiant, a'r 93 o golegau chweched dosbarth a sefydliadau eraill a ariennir gan yr Asiantaeth Ariannu Addysg i ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-16;
- sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru; a
- sefydliadau addysg bellach preifat nad ydynt yn cael arian cyhoeddus ac a allai fod ar Gofrestr Darparwyr Dysgu yn y DU ac sydd â nodweddion tebyg i'r rhai ar y gofrestr. Y diffiniad o'r rhain yw sefydliadau sydd â 250 o fyfyrwyr o leiaf sy'n dilyn cyrsiau i baratoi ar gyfer arholiadau sydd naill ai'n cael arian cyhoeddus neu sy'n cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau neu Lywodraeth Cymru.

## Atodiad 2

### Rhestr wirio'r ddyletswydd *Prevent*

Isod, ceir y camau allweddol ar gyfer arweinwyr ysgolion a cholegau ynglŷn â gweithredu'r ddyletswydd *Prevent*. Dylid eu darllen ar y cyd â'r cyngor a'r arweiniad sydd yn y ddogfen hon.

Mae'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn y rhestr o gamau gweithredu ar gael oddi ar **www.nasuwt.org.uk/prevent**.

Dylai arweinwyr ysgolion a cholegau:

- fod yn gyfarwydd â'r canllaw statudol ynghylch y ddyletswydd *Prevent*;
- deall y diffiniad o eithafiaeth sydd yn y canllaw statudol ynghylch *Prevent*;
- ceisio gwybodaeth am y risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth a radicaleiddio ac sy'n cael eu hwynebu gan blant a phobl ifanc yn eu hardal;
- defnyddio gweithdrefnau diogelu cyfredol y sefydliad er mwyn mynd i'r afael â'r materion y gallai plant a phobl ifanc eu hwynebu mewn perthynas â radicaleiddio ac eithafiaeth;
- ystyried polisïau a gweithdrefnau'r Byrddau Lleol Diogelu Plant mewn perthynas â'r ddyletswydd *Prevent*;
- cymryd cyngor gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant ynghylch ffyrdd y dylai ysgolion a cholegau ymgysylltu ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, a phan gânt eu defnyddio, cydlynwyr *Prevent* arbenigol;
- caniatáu i Arweinwyr Diogelu Pwrpasol gael hyfforddiant ar *Prevent* a gyflwynir drwy raglen WRAP y Swyddfa Gartref;
- darparu'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i Arweinwyr Diogelu Pwrpasol gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol;

- sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn deall mai radicaleiddio yw'r broses o ddenu plant a phobl ifanc at eithafiaeth a sut gallant fod yn agored i gael eu denu at derfysgaeth o ganlyniad i hynny;

- sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ystyr 'eithafiaeth' yng nghyd-destun gwerthoedd Prydeinig sylfaenol a sut y defnyddir eithafiaeth i gyfiawnhau gweithgareddau'n gysylltiedig â therfysgaeth;

- darparu cyfleoedd i'r staff ddod yn ymwybodol o ba fesurau sydd ar gael i atal plant a phobl ifanc rhag cael eu denu at derfysgaeth a sut i herio'r ideolegau eithafol a allai fod yn gysylltiedig â hynny;

- sicrhau bod staff yn dod yn ymwybodol o brosesau a pholisïau mewnol y sefydliad ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc y canfyddir eu bod mewn perygl o gael eu radicaleiddio;

- darparu gwybodaeth i'r holl staff ynglŷn â'r trefniadau Channel lleol;

- ystyried caniatáu i'r staff ddilyn modiwl hyfforddi Channel ar-lein gan y Coleg Plismona ar asesu risg;

- sicrhau bod y polisïau ynghylch diogelwch ar y we yn gyfoes a bod y trefniadau diogelu mewnol yn caniatáu i'r staff roi gwybod am unrhyw bryderon am ddeunyddiau a ddarllenir gan blant a phobl ifanc, naill ai ar y safle neu yn rhywle arall;

- gwirio bod polisïau'r rhyngrwyd yn gyson â'r cyngor sydd yng nghanllaw statudol Llywodraeth Cymru, *sef Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*;

- darparu cyfleoedd i staff ymgyfarwyddo â chanllaw'r Swyddfa Gartref ar ffyrdd y gellir defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i radicaleiddio plant a phobl ifanc;

- cydnabod bod rhaid peidio â chyflawni dyletswydd *Prevent* mewn ffyrdd sy'n gwrthdaro â dyletswyddau statudol allweddol eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;

- sicrhau bod polisïau ac arferion yn cydnabod bod y ddyletswydd *Prevent* yn mynd i'r afael â phob math o fygythiad terfysgol i'r DU ac nad yw'n gyfyngedig i eithafiaeth Islamaidd;

- cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb bob blwyddyn er mwyn cadarnhau bod ystyriaeth effeithiol wedi cael ei rhoi i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth weithredu'r ddyletswydd *Prevent*.

## Atodiad 3

### Cyhoeddiadau Defnyddiol

Mae'r holl ddogfennau a restrir isod ar gael ar wefan yr NASUWT yn **www.nasuwt.org.uk/prevent**


Llywodraeth EM (2015). *Prevent duty guidance*.

Llywodraeth EM (2015). *Prevent duty guidance: further education institutions in England and Wales*.

DfE/Home Office (2015). *How social media is used to encourage travel to Syria and Iraq.*

Llywodraeth EM (2015). *Channel Duty Guidance: Protecting vulnerable people from being drawn into terrorism.*

College of Policing and Metropolitan Police Service (2015). *Channel General Awareness.*

Llywodraeth Cymru (2006). *Diogelu plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.*

Llywodraeth Cymru (2015). *Cadw dysgwyr yn ddiogel.*

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

16/03006 Cymru